Bridget Bevan, 'Madam Bevan', 1698–1779
Noddwraig ysgolion cylchynol

Ti chwanegiast at dy goron
Berlau gwell y dydd a ddaw
Nag a gloddir gan yr Indiaid
Fyth yng ngwlad Golcinda draw.

Cyfeiriad at waith Bridget Bevan
gan William Williams, Pantycelyn

Deuai Bridget Bevan o deulu breintiedig a chefnog ac fe gafodd addysg dda. Dywedid ei bod yn wraig wybodus a diwylliedig, yn bendant ei barn ac yn meddu ar feddwl deallus a dadansoddol. Merch ydoedd i John ac Elizabeth Vaughan, Cwrt Derllys, Caerfyrddin. Bu ei thad yn arweinydd bywyd crefyddol ac addysgol Caerfyrddin am gyfnod. Cefnogai waith yr SPCK ac fe sefydlodd ysgolion elusennol a llyfrgelloedd rhyddion ar gyfer tlodion yn y sir. Oherwydd y gwaith hwn mae'n debygol fod y teulu'n gyfarwydd â Gruffudd Jones, Llanddowror, ers dyddiau plentyndod Bridget, ac yn ogystal yr oedd yn perthyn trwy briodas i'r Vaughaniaid gan iddo briodi chwaer gwraig Richard Vaughan, ewythr Bridget Bevan. Bedyddiwyd hi ar 30 Hydref 1698 yn eglwys Merthyr gan y rheithor, Thomas Thomas, ac ar 30 Rhagfyr 1721 priododd ag Arthur Bevan, bargyfreithiwr o Dalacharn. Yr oedd ef yn ŵr o awdurdod, yn gofiadur bwrdeistref Caerfyrddin rhwng 1722 a 1741, yn aelod seneddol rhwng 1727 a 1741, ac am gyfnod yn farnwr dros dde a gogledd Cymru. Ystyrid eu tŷ yn Nhalacharn yn dŷ trugaredd i'r tlodion a'r anghenus. Yr oeddent hefyd yn berchen ar gartref yng Nghaerfaddon lle y cynhelid oedfaon pregethu'n gyson. Bu George Whitefield a John Wesley, Howell Harris a Gruffudd Jones yno yn cyhoeddi'r Efengyl.

Oherwydd gwaith ei thad gydag ysgolion yr oedd yn ddigon naturiol i Bridget ymddiddori yn y gwaith. Fe sefydlodd hi ei hun

ddwy ysgol yn Llandeilo Abercywyn a Llandybïe. Addawyd nawdd i Gruffudd Jones i gychwyn ysgolion gan frawd ei wraig, sef Syr John Phillip, Castell Pictwn, Penfro, ond yn fuan bu farw Syr John Phillips ac fe safodd Bridget Bevan yn y bwlch. Am ddeugain mlynedd bu'n noddwr ariannol ac yn gefn cydwybodol i waith Gruffudd Jones yn sefydlu ysgolion ar gyfer tlodion diaddysg Cymru.

Yr oedd dylanwad Bridget Bevan ar Gruffudd Jones yn fawr ac arwydd o hyn oedd ati anfon 175 o lythyrau iddi rhwng 1731 a 1737. Bu farw Gruffudd Jones yn ei chartref lle y bu'n byw ar ôl marwolaeth ei wraig, ac yn ei ewyllys gadawodd ei holl eiddo iddi, sef gwerth oddeutu £7,000, er mwyn iddi barhau â gwaith yr ysgolion. Cadwodd Madam Bevan ei gair, ac ym 1779, blwyddyn ei marw, yr oedd yna 144 o ysgolion yng Nghymru, gyda 9,576 o ddisgyblion. Gadawodd Bridget Bevan £10,000 er mwyn cynnal yr ysgolion i'r dyfodol, ond oherwydd ymyrraeth dau berthynas trosglwyddwyd ei holl eiddo i lys y Siansri. Heblaw bod yn noddwr i'r ysgolion hyn ymddiddorodd Bridget Bevan drwy'i hoes yn y rhan fwyaf o fudiadau crefyddol, dyngarol ac addysgol ei dydd. Bu farw ar 11 Rhagfyr 1779 a chladdwyd hi yn eglwys Llanddowror ar 17 Rhagfyr.